***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 2

## NEWIDIADAU RHEOLEIDDIEDIG

### **RHAN 3**

### YSGOLION CYMUNEDOL, YSGOLION SEFYDLEDIG AC YSGOLION GWIRFODDOL

*Newidiadau i fangreoedd*

11 (1) Ehangu mangre’r ysgol a fyddai’n cynyddu capasiti’r ysgol os yw’r dyddiad y cynllunnir gweithredu’r cynigion i wneud yr ehangiad yn dod o fewn y cyfnod a ddisgrifir yn isbaragraff (2).

(2) Pum mlynedd yw’r cyfnod ac mae’n dechrau ar ddyddiad gweithredu’r cynigion (neu’r dyddiad diweddaraf) sy’n dod o fewn paragraff 13 (lleihau capasiti ysgol).

(3) Nid yw “ehangu” yn y paragraff hwn yn cynnwys ehangu dros dro.